# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Mai 2020

Amser: 08.45 - 10.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6218

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Helen Mary Jones AS (Cadeirydd dros dro)<br>Mick Antoniw AS<br>John Griffiths AS<br>Carwyn Jones AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Hoffwn groesawu'r Aelodau i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai David Melding AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru

2.1 Holodd yr Aelodau Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru ynghylch COVID-19 a'i effaith ar y rhai sy'n gweithio yn y Celfyddydau yng Nghymru.

## 3 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

### 3.1 Llythyr gan Rwydwaith Radio Cymunedol Cymru

Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Rwydwaith Radio Cymunedol Cymru yn cadarnhau y bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y materion a godwyd yn eu llythyr.

### 3.2 Gohebiaeth â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Nododd yr Aelodau'r ohebiaeth.

### 3.3 Briff gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Nododd yr Aelodau y briff.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law. Cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi adroddiad byr ar effaith yr achosion o COVID-19 ar sector y celfyddydau gydag argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.